**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
**Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

03 Ionawr 2018

Annwyl Mr Ramsay

**Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**

Gan gyfeirio at gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ddydd Llun 4 Rhagfyr 2017 ynghylch Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai, gofynnodd Clerc y Pwyllgor am ymateb i'r cam gweithredu canlynol y cytunwyd arno:

- anfon rhagor o wybodaeth am yr amserlen i gyflwyno system genedlaethol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) a system arlwyo Cymru gyfan.

**<u>System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)</u>**

Ar hyn o bryd mae naw Awdurdod Lleol yn defnyddio'r system ynghyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae disgwyl i dri Awdurdod Lleol arall fabwysiadu'r system yn gynnar yn 2018. Gweithredu'r system WCCIS o fewn Byrddau Iechyd fydd prif ffocws y rhaglen dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae pump o Fyrddau Iechyd yn symud ymlaen â gorchmynion i ddefnyddio'r system a fydd, ar ôl eu llofnodi, yn cadarnhau'r amserlen i roi hynny ar waith.

Gallaf gadarnhau i'r Adolygiad Gateway roi Asesiad Hyder Cyflawni lefel Oren, ac mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo i sicrhau bod y prif gamau gweithredu sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon.

**<u>System arlwyo Cymru gyfan</u>**

Cytunwyd y bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gaffael a gweithredu system TG Arlwyo a Maeth i Gymru yn unol â'r amserlen ffurfiol ganlynol. Ar ôl y gwaith paratoi a'r broses gymeradwyo broffesiynol:

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

- Ionawr 2018 - cychwyn ar fanyleb ffurfiol fanwl y system i'w defnyddio yn y broses gaffael.
- Medi 2018 - cychwyn proses gaffael OJEU, gan ddyfarnu'r fframwaith ym mis Mehefin 2019.
- Mehefin 2019 - datblygu, profi a threialu'r system newydd o fewn un Bwrdd Iechyd.
- Hydref 2019 - y fframwaith ar gael i sefydliadau GIG Cymru ei ddefnyddio i ofyn am gynigion. Bydd angen i drefniadau gweithredu o fewn Bwrdd neu Ymddiriedolaeth fod yn unol â chynlluniau gwella gwasanaeth arlwyo ehangach y sefydliad.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i chi.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**